WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyhoeddwyd: Hydref 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 562A2016



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Rees, John Roberts, Rob Hathaway a Katherine Simmons o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 5

## Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da gyda'r rhan fwyaf o'i amcanion gwella; y mae wedi llwyddo'n arbennig i gefnogi'r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc a hyrwyddo cludiant cynaliadwy 7

Mae arweinyddiaeth dda a threfniadau llywodraethu cryf yn gwella gwasanaethau cynllunio. Serch hynny, nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio ag awdurdodau parc cenedlaethol a chynllunio eraill yng Nghymru, ac o sicrhau gwerth am arian, yn ddigon cadarn 11

Cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad o'i berfformiad, ac adrodd arno, a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol 12

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 15

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) ers cyhoeddi'r Adroddiad Gwella blaenorol ym mis Gorffennaf 2015. Lle bo'n briodol, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o brif ganfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) fel 'rheoleiddiwr perthnasol' o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (y Mesur). Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod, a chan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gwblhawyd y gwaith hwnnw.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn info@audit.wales neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

5 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2016-17.

6 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Yn 2014-15, canfuom fod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da gyda'r rhan fwyaf o'i amcanion gwella; y mae wedi llwyddo'n arbennig i gefnogi'r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc a hyrwyddo cludiant cynaliadwy

b Buom yn gweithio ym mhob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru er mwyn asesu'r graddau y mae'r awdurdodau hynny'n darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian. Yn yr Awdurdod hwn, gwelsom fod arweinyddiaeth dda a threfniadau llywodraethu cryf yn gwella gwasanaethau cynllunio. Serch hynny, nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio ag awdurdodau parc cenedlaethol a chynllunio eraill yng Nghymru, ac o sicrhau gwerth am arian, yn ddigon cadarn.

c Cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad o'i berfformiad, ac adrodd arno, a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella

7 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Awdurdod, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

d argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae materion ac iddynt lai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion gwella, wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill a'u nodi isod. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

| Chynigion ar gyfer Gwella |
|---|
| **C1**<br>Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau parc cenedlaethol eraill ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru i ddatblygu:<br>• data cymharol cyson a chadarn ar gostau a maint, a defnyddio hynny i ddangos a yw'n cynnig gwerth am arian ai peidio; a<br>• chanlyniadau perthnasol er mwyn helpu i fesur y cyfraniad tuag at gyflawni'r nod o ddatblygu'n gynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â newid mwy hirdymor.<br>Dylid cyflawni'r gwaith hwn mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar brofiadau a gafodd Penaethiaid Planning Scotland a Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Lloegr wrth fesur a chymharu costau. |
| **C2**<br>Cynyddu lefelau'r cydweithio a'r gwaith partneriaeth strategol, yn enwedig gydag awdurdodau parc cenedlaethol ac awdurdodau cynllunio eraill yng Nghymru, gan gynnwys archwilio cyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a'r opsiynau ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n fanylach. |

9 Yn ogystal â hyn, cafodd meysydd i'w gwella eu cynnwys yn adroddiad arolygu Comisiynydd y Gymraeg a gyflwynwyd i'r awdurdod yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ei gwefan.

# Adroddiad manwl



## Mae’r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da gyda’r rhan fwyaf o’i amcanion gwella; y mae wedi llwyddo’n arbennig i gefnogi’r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc a hyrwyddo cludiant cynaliadwy

10 Yn yr adran hon o’r adroddiad, edrychir ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015

11 Cynhyrchodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddau gynllun yn gysylltiedig â 2014-15. Mae’r naill, sef ‘Cynllun Gwella 2014-15 Rhan 1’ yn nodi ei Flaenoriaethau a’i Amcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae’r llall, ‘Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Gwella Busnes 2014-15 Rhan 2’ yn adrodd ar weithgareddau a pherfformiad 2014-15.

12 Ceir chwe thema greiddiol yng Nghynllun Rheoli’r Awdurdod, ac mae ei bedair Blaenoriaeth Gwella yn tarddu o’r themâu hynny. Bwriedir cyflawni pob un o’r blaenoriaethau hyn ‘drwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a’r swyddogaeth gynllunio’. Ar gyfer 2014-15, roedd gan yr Awdurdod 11 o Amcanion Gwella a gyfrannai at y blaenoriaethau hyn.

13 Rydym wedi canolbwyntio ar yr agweddau hynny a nodwyd gan yr Awdurdod yn amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol, ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos cynnydd tuag at gyflawni’r amcanion hyn.

| |
|---|
| **Blaenoriaeth Gwella Un:** (Thema 1 yn y Cynllun Rheoli - Rheoli Tirweddau’r Parc i fanteisio i’r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth): Drwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a’r swyddogaeth gynllunio bydd amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a’u hyrwyddo. |
| **Amcan Gwella Un:** Amgylchedd Hanesyddol – Byddwn yn diogelu ac yn gwella archaeoleg y Parc<br>**Amcan Gwella Dau:** Treftadaeth Ddiwylliannol – Byddwn yn gwarchod ac yn gwella’r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc |

14 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, adroddwyd bod absenoldeb salwch hirdymor ymhlith swyddogion yn rhannol gyfrifol am fethiant yr Awdurdod i gyrraedd ei dargedau amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol yn 2013-14. Ar gyfer 2014-15, mae perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y mesuriadau i gefnogi’r Flaenoriaeth Gwella hon a’i hamcanion wedi gwella i raddau sylweddol. Cyrhaeddodd yr Awdurdod ei darged amgylchedd hanesyddol drwy gyflawni mesurau cadwraeth hanesyddol ar ddwy Heneb Restredig (safleoedd archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol) o leiaf.

15 Cyrhaeddodd yr Awdurdod ei darged i leihau nifer yr adeiladau ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl. Llwyddodd i gyflwyno gostyngiad o 23 yn nifer yr adeiladau, yn erbyn targed o chwe adeilad. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol pan na chafwyd unrhyw ostyngiadau. Mae'r Awdurdod wedi priodoli'r gwelliant hwn i ymarfer ailddosbarthu, ynghyd â'r ffaith bod ceisiadau wedi cael eu cyflwyno ynghylch nifer o adeiladau mewn perygl i'w defnyddio o'r newydd.

| |
|---|
| **Blaenoriaeth Gwella Dau:** (Thema 2 yn y Cynllun Rheoli - Gwarchod a gwella Bioamrywiaeth): Drwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd Bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod a'i gwella. |
| **Amcan Gwella Tri:** Bioamrywiaeth - Drwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn dod ag ardal o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol<br>**Amcan Gwella Pedwar: Bioamrywiaeth -** Drwy waith hwyluso, byddwn yn dod ag ardal arall o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol |

16 Un o nodau hirdymor yr Awdurdod yw sicrhau 'Statws Cadwraeth Ffafriol' i Langasty - Caeau Tŷ Mawr. Cyflawnir hyn drwy gyfres o gamau gweithredu yn ei Gynllun Rheoli. Parhad o 2013-14 yw'r dull o fesur llwyddiant Amcan Gwella Tri, sef sefydlu grŵp llywio rheoli safle ar gyfer Llangasty - Caeau Tŷ Mawr. Dyma'r cam nesaf tuag at wireddu'r uchelgais hwn. Yn ystod 2014-15 cafodd Cynllun Rheoli Llangasty - Caeau Tŷ Mawr ei gymeradwyo gan y Grŵp Llywio, ac adroddodd yr Awdurdod ei fod yn fodlon â'r cynnydd wrth weithio tuag at y flaenoriaeth hon.

17 Yn ôl Cynllun Gwella Rhan 1 2014-15 yr Awdurdod, cyflawnir Amcan Gwella Pedwar drwy gynorthwyo porfawyr Mynydd Du i gyflwyno ceisiadau i gynllun Glastir Uwch. Cyflwynwyd pedwar cais yn 2013-14. Y targed ar gyfer 2014-15 oedd hyrwyddo'r broses o weithredu un cytundeb Gwaith Cyfalaf Glastir mewn partneriaeth ag un gymdeithas bori o'r Mynydd DU. Llwyddodd yr Awdurdod i gwblhau'r cytundeb hwnnw.

18 Llwyddodd yr Awdurdod hefyd i wneud cais am gyllid o Gronfa Adfer Natur Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen wella barhaus i adfer rhostir, mawnogydd a chynefinoedd eraill y Mynyddoedd Du. Dyma faes allweddol y mae'r Awdurdod yn ceisio ei ddatblygu, ac mae'n un o'r tri amcan llesiant a ddewiswyd ganddo yn erbyn y flaenoriaeth hon ar gyfer 2016-17.

| |
|---|
| **Blaenoriaeth Gwella Tri:** (Thema 5 yn y Cynllun Rheoli - Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy): Drwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol, a balchder cymunedol yn cael eu galluogi. |
| **Amcan Gwella Pump:** Byw'n Gynaliadwy - Cynyddu nifer y cyfranogwyr sy'n elwa ar raglenni sgiliau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog<br>**Amcan Gwella Chwech:** Gwytnwch Cymdeithasol – Defnyddio grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ysgogi arian cyfatebol<br>**Amcan Gwella Saith:** Balchder Cymunedol – Cefnogi datblygiad Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol<br>**Amcan Gwella Wyth:** Gwytnwch Cymdeithasol - – Deall sut y mae'r CDLl mabwysiedig yn effeithio ar gymunedau'r Parc<br>**Amcan Gwella Naw:** Byw'n Gynaliadwy - Datblygu a gweithredu cynlluniau sy'n seiliedig ar le mewn partneriaeth â chymunedau |

19 Mae'r cylch gwaith ar gyfer Blaenoriaeth Gwella Tri yn eang. Nod y flaenoriaeth hon yw cefnogi a galluogi pobl a chymunedau lleol, gan feithrin cynaliadwyedd a gwella ansawdd bywyd. Cafwyd perfformiad da ar y cyfan yn erbyn y flaenoriaeth hon, gyda'r Awdurdod naill ai'n cyrraedd neu'n rhagori ar ei dargedau m mhedwar o'r pum mesur cefnogol. Yr oedd cyflawniad yr Awdurdod 88 y cant yn well na'i darged ar gyfer nifer y Prosiectau Cymunedol a gefnogwyd drwy roi cyngor/cyllid datblygu yn gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf lle adroddwyd ar y mesur hwn, nid oedd unrhyw sail gymharol ar gyfer gosod targedau, ond dylid bod modd gosod targed mwy uchelgeisiol ar gyfer 2015-16.

20 Yn anffodus, ni lwyddodd yr Awdurdod i gyrraedd ei darged o dan Amcan Gwella Naw i fabwysiadu un Cynllun Pentref yn 2014-15. Fodd bynnag, datblygodd fframwaith a chynnal gweithdy yn 2013-14 er mwyn gweithio tuag at y nod hwn. Nid yw Cynllun Gwella Busnes yr Awdurdod yn rhoi esboniad clir ynghylch pam na chyflawnwyd hyn, ond nodir ynddo fod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd gyda Chynllun Tref y Gelli Gandryll ac ail Gynllun Pentref.

| |
|---|
| **Blaenoriaeth Gwella Pedwar:** (Thema 6 y Cynllun Rheoli - Datblygu Economaidd Cynaliadwy): Drwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd y defnydd o gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr yn cael ei annog a'i wella |
| **Amcan Gwella Deg:** Cludiant Cynaliadwy - Bydd busnesau'n derbyn hyfforddiant ar gludiant cynaliadwy<br>**Amcan Gwella Un Ar Ddeg:** Cludiant Cynaliadwy; Llunio taflen amserlenni bysus i ymwelwyr |

21 Er mwyn sicrhau cludiant cynaliadwy effeithiol, mae’n rhaid ystyried ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cydweithio’n agos â busnesau twristiaeth lleol a Geobarc Fforest Fawr, gan rannu ffyrdd i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a datblygu rhwydweithiau cludiant cynaliadwy. Nod y mentrau hyn, o’u cyfuno â gwaith i hyrwyddo llwybrau teithio bysus, yw gosod y budd economaidd yn sgil cynnydd mewn twristiaeth yn erbyn yr ôl troed carbon a’r llygredd a achosir gan ymwelwyr o bell.

22 Gan gynnal ei berfformiad yn y gorffennol yn erbyn y Flaenoriaeth Gwella hon a’i Hamcanion Gwella, llwyddodd yr Awdurdod i gyrraedd neu ragori ar ei dargedau yn y maes hwn. Mae’r Awdurdod wedi mwy na dyblu ei darged i hyfforddi 24 o’r sector preifat yn rhan o’r cyrsiau hyfforddi ar gludiant, lle cafwyd 52 o gyfranogwyr. Mae’r Tîm Twristiaeth Gynaliadwy yn mynd ar drywydd yr hyfforddiant hwn, gan gysylltu â busnesau fu’n bresennol yn y cyrsiau hyfforddi er mwyn gofyn am adborth ynglŷn â’r cyngor a roddwyd i’w gwesteion yn sgil yr hyfforddiant. Llwyddodd yr Awdurdod hefyd i gyrraedd ei darged i gynhyrchu 30,000 o daflenni amserlen bws i ymwelwyr, sef y dull o fesur perfformiad Amcan Gwella 11.

23 Mae’r Awdurdod yn cydweithio â’r Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill yng Nghymru i fabwysiadu dull gwahanol o adrodd ar gynlluniau gwella. Bydd ei Gynllun Corfforaethol 2016-17 yn integreiddio amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ag Amcanion Corfforaethol a Gwella. Yng nghyd-destun y gostyngiadau mewn cyllid, mae Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol hefyd wedi neilltuo gwariant yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Drwy alinio a diwygio ei amcanion gwella â’r saith nod llesiant, mae’r Awdurdod yn anelu i fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu.

## Mae arweinyddiaeth dda a threfniadau llywodraethu cryf yn gwella gwasanaethau cynllunio. Serch hynny, nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio ag awdurdodau parc cenedlaethol a chynllunio eraill yng Nghymru, ac o sicrhau gwerth am arian, yn ddigon cadarn.

24 Ym mis Hydref 2015, cyhoeddwyd Cyflawni â Llai - Gwasanaethau Cynllunio - Adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

25 Yn ddiweddar, gostyngodd Llywodraeth Cymru y cyllid a ddarperir i bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol. Daeth y gostyngiadau hyn i rym yn ystod 2014-15, a bydd angen gostyngiadau pellach yn 2015-16, ac ar ôl hynny o bosib. Mae pob awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru bellach yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i ymdrin â gostyngiadau mewn cyllid. Gan fod cyfran y gwariant ar gyflenwi gwasanaethau cynllunio mewn awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru yn uwch na'r gwariant mewn cynghorau, ceir risgiau neilltuol yn gysylltiedig â gostwng cyllid yn gyffredinol. Yn ystod 2015-16, buom yn archwilio sut mae awdurdodau parc cenedlaethol yn rheoli'r risg hon, gan asesu i ba raddau yr oeddent yn cyflenwi gwasanaethau cynllunio effeithlon gyda llai o arian.

26 Daethom i'r casgliad bod arweinyddiaeth dda a threfniadau llywodraethu cryf yn gwella gwasanaethau cynllunio. Serch hynny, nid yw dull yr Awdurdod o gydweithio ag awdurdodau parc cenedlaethol a chynllunio eraill yng Nghymru, ac o sicrhau gwerth am arian, yn ddigon cadarn.

27 Daethom i'r casgliad hwnnw oherwydd bod gan yr Awdurdod weledigaeth glir a phrosesau craffu gwell, a'i fod wedi gwella dull uwch swyddogion o gydweithio. Mae perfformiad y gwasanaeth cynllunio yn dda, ond ceir lefel isel o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid. Mae enw da'r gwasanaeth ymhlith y cyhoedd wedi gwella, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer cydweithio yn ddigon strategol, er bod y trefniadau hynny'n gwella. Mae costau rheoli datblygu yn dal yn ymddangos yn gymharol uchel. Gwelsom hefyd fod yr Awdurdod wedi gwella ei ddull o reoli perfformiad. Fodd bynnag, ni cheir digon o ffocws ar gostau, gwerth am arian, na chanlyniadau ei wasanaeth cynllunio.

28 Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan yr Awdurdod yng Nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 5 Chwefror 2016. Croesawodd yr Awdurdod yr adroddiad gan gydnabod y cynnydd cadarnhaol a wnaed ers 2009 yn ogystal â'r meysydd i'w gwella. Mae'r Awdurdod ar ganol archwilio sut i gydweithio ag awdurdodau cynllunio eraill i ddatblygu data a chanlyniadau cymharol; y mae hefyd yn cynyddu lefelau cydweithio a gwaith partneriaeth strategol, er mwyn archwilio cyfleoedd i leihau costau'r gwasanaeth cynllunio a chyfleoedd i gynllunio'r gweithlu'n fanylach.

## Cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad o'i berfformiad, ac adrodd arno, a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol

29 Ym mis Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, roedd y dystysgrif hefyd yn datgan cred yr Archwilydd Cyffredinol, fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

30 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

a o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;

c drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru ac at ddangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun; ac

d o ran cyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

31 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

32 Ym mis Mehefin 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau bod Cynllun Gwella'r Awdurdod wedi'i archwilio'n unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, roedd y dystysgrif yn datgan cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

33 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a

c gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

34 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

35 Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

36 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau Iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

37 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl awdurdodau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

38 Yn sgil gwaith craffu rheolaidd gan y Comisiynydd, cynhaliwyd ymchwiliad ar weithredu cynllun iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er na chafwyd cwyn o dan adran 18 o'r Ddeddf, penderfynodd y Comisiynydd arfer ei phwerau o dan adran 17 i gynnal ymchwiliad er mwyn canfod a gafwyd methiant i gydymffurfio â'r cynllun.

39 Nodir yn yr adroddiad 'Yn wyneb y wybodaeth sydd ar gael mae lle i gredu fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â chymalau 3.1 ond wedi methu â gweithredu cymalau 4.5 a 6.6.2 o'i chynllun iaith wrth lunio a lansio gwefan gyrchfan www.breaconbeacons.org. Cyhoeddodd y Comisiynydd bedwar argymhelliad yn yr adroddiad hwn.

40 Mae copi o'r adroddiad arolygu llawn ac o'r llythyrau yr anfonodd y Comisiynydd i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Atodiad 1 – Statws yr Adroddiad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr John Cook
Y Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
LD3 7HP

Annwyl John

## Llythyr Archwilio Blynyddol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd y prif faterion oedd yn deillio o'r archwiliad cyfrifon wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 23 Medi 2015, a bydd adroddiad manylach yn dilyn gyda hyn.

Wrth gynnal yr archwiliad, ni chanfuwyd unrhyw wallau o bwys yn nrafft y datganiadau ariannol, er bod angen amryw o fân ddiwygiadau. Yn ein hadroddiad ISA260 i'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu, adroddwyd tanddatganiad o incwm a gwariant yn gysylltiedig â gorfodi rheoli datblygu. Ni chafodd yr addasiadau a argymhellwyd eu gweithredu ar y cyfrifon. Ni chafwyd unrhyw effaith o bwys yn sgil y camddatganiadau.

Darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ni yn brydlon, ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Bydd y tîm archwilio yn gweithio gyda'r swyddog cyllid eleni er mwyn canfod agweddau ar y broses archwilio lle gellid cyflwyno mesurau effeithloni pellach.

## Yr wyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau.

Mae'r Awdurdod yn parhau i wella sawl agwedd ar y Parc ac wedi ymateb yn effeithiol i doriadau cyllid, er y gallai wneud mwy i ddatblygu rhai prosesau cefnogol.

## Nid wyf eto wedi cyflwyno tystysgrif i gadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon wedi'i gwblhau

Ym mis Medi 2015, cefais wrthwynebiad ffurfiol i eitem yn y cyfrifon. Nid yw fy ngwaith yn gysylltiedig â'r gwrthwynebiad hwn wedi'i gwblhau eto.

Mae'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 yn debygol o fod fymryn yn uwch na'r ffi a bennwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol, gan y bydd angen i ni godi ffi ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwaith a gyflawnwyd wrth ymdrin â'r gwrthwynebiad a gafwyd wrth archwilio. Mae'r gost ychwanegol yn cael ei thrafod gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid ar hyn o bryd, ond cyfrifir mai oddeutu £4,000 yw'r gost honno.

Yn gywir

**Richard Harries**
Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i Mrs Melanie Doel, Cadeirydd Awdurdod y Parc

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru